# Adolygiadau Gwella Ansawdd (Cymru): adroddiad thematig diwedd cylch ar gyfer sesiynau 2017-18 i 2021-22

## Cyflwyniad

Adolygiad Gwella Ansawdd (QER) yw'r dull y mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) yn ei ddefnyddio i adolygu darparwyr Addysg Uwch (AU) yng Nghymru fel rhan o'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru. Mae'n darparu dull nodedig o adolygu sefydliad cyfan, a ddatblygwyd i fynd i'r afael â chyd-destun penodol sector AU Cymru.

All outcome and technical reports are published on QAA's web pages.

Mae QER yn darparu sicrwydd ansawdd ac yn cefnogi gwella ansawdd, gan sicrhau cyrff llywodraethu, myfyrwyr a'r cyhoedd ehangach bod darparwyr yn bodloni gofynion Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr). Mae QER yn asesu darparwyr yn erbyn y Safonau a'r Canllawiau Ewropeaidd (ESG) a gofynion perthnasol safonau sylfaenol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Cyhoeddir yr holl adroddiadau canlyniadau a thechnegol ar dudalennau gwe Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch.

## Amseriad Adolygiadau Gwella Ansawdd

Roedd deg QER rhwng sesiynau 2017-18 a 2021-22.

| **Darparwr** | **Blwyddyn** |
|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | Ebrill 2022 |
| Prifysgol Bangor | Mai 2018 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | Ionawr 2021 |
| Prifysgol Caerdydd | Mawrth 2020 |
| Grŵp Llandrillo Menai | Mai 2022 |
| Coleg Castell-nedd Port Talbot yn masnachu fel Grŵp Colegau NPTC | Mehefin2022 |
| Prifysgol Abertawe | Tachwedd 2022 |
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | Mawrth 2022 |

| | |
|---|---|
| Prifysgol De Cymru | Gorffennaf 2022 |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | Mawrth 2019 |

# Dadansoddiad o ganlyniadau'r adolygiadau

## Dyfarniadau

Ar gyfer pob un o'r 10 adolygiad, y casgliadau oedd bod pob darparwr:

- yn bodloni gofynion Rhan 1 yr ESG ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol, ac
- yn bodloni gofynion rheoleiddio sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

## Canmoliaeth

Gall timau adolygu ganmol arfer y maent yn ei nodi fel proses neu ffordd o weithio sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn at brofiad dysgu'r myfyriwr yng nghyd-destun y darparwr (gweler y llawlyfr dull QER).

Roedd 39 canmoliaeth ar draws y 10 darparwr. Derbyniodd pob darparwr o leiaf un ganmoliaeth. Y nifer fwyaf o ganmoliaeth oedd chwech ar gyfer Coleg Castell-nedd Port Talbot yn masnachu fel Grŵp Colegau NPTC.

Crynhoir y themâu cyffredin canlynol, fel a ganlyn (mae Atodiad 1 yn rhestru ac yn grwpio'r holl ganmoliaeth yn eu cyfanrwydd).

**Partneriaeth a llais myfyrwyr** (chwe darparwr) – gyda saith canmoliaeth, dyma'r maes ymarfer a gafodd ganmoliaeth fwyaf aml. Gwaith partneriaeth effeithiol â myfyrwyr; ymrwymiad i lais myfyrwyr; ffocws strategol ar gyfathrebu a deialog â myfyrwyr; a chyfraniad swyddogaethau rôl penodol oedd rhai o'r arferion a gydnabuwyd am eu heffaith gadarnhaol ar y profiad myfyrwyr.

**Ymateb i'r pandemig** (pum darparwr) – cafodd hanner y darparwyr ganmoliaeth am eu hymatebion i'r pandemig. Gweithredu'n gyflym; lleihau'r effaith aflonyddgar i fyfyrwyr, a chamau gweithredu sy'n parhau i gael effaith etifeddol ar ddulliau digidol, addysgeg a chymorth i fyfyrwyr, yn ogystal â datblygu rheoleiddio a pholisïau i roi hyblygrwydd mewn amgylchedd allanol eithriadol o heriol, oedd rhai o'r camau gweithredu a gydnabuwyd gan dimau adolygu.

**Cymorth i fyfyrwyr** (pedwar darparwr) – canmoliaeth yn ymwneud â theilwra cymorth; lled a dyfnder cymorth; monitro cymorth effeithiol; ac adnodd digidol.

**Sefydliadau partner** (pedwar darparwr) – agweddau ar arfer a ganmolwyd oedd: partneriaethau a reolir yn dda sy'n diwallu anghenion myfyrwyr lleol a chyflogwyr rhanbarthol; cymorth cynhwysfawr a hygyrch; dull o wella dilyniant myfyrwyr, o fewn ac oddi wrth bartneriaid cydweithredol; goruchwylio partneriaethau addysg trawsgenedlaethol; a pherthynas gefnogol a cholegol â phartneriaid.

**Defnyddio pwyntiau cyfeirio allanol** (pedwar darparwr) – cwmpasodd y ganmoliaeth: ymgysylltiad helaeth â chanllawiau, arbenigedd a rhwydweithiau allanol; cynnwys cyflogwyr ac arbenigwyr pwnc allanol eraill wrth gynllunio a chyflwyno rhaglenni; ymatebolrwydd i

anghenion cyflogadwyedd cenedlaethol a rhanbarthol; ymgysylltiad myfyrwyr â gweithgareddau ymchwil.

**Y defnydd o ddata** (tri darparwr) – roedd tair canmoliaeth yn ymwneud â: argaeledd a defnydd cynhwysfawr o ddata sydd wedi'i fewnosod mewn prosesau ansawdd; dangosfwrdd data, sy'n darparu ystod eang o ddata cywir, defnyddiol a hygyrch i staff; a chasglu a defnyddio data ymgysylltiad a pherfformiad myfyrwyr yn systematig.

**Dulliau sefydliad cyfan** (tri darparwr) – cydnabuwyd tri darparwr am fentrau ar draws y darparwr a oedd yn cael effaith gadarnhaol ar y profiad myfyrwyr. Canolbwyntiodd y mentrau ar: rheoli a gwella ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr yn gyson; rheoli strategol a datblygu gweithredol ac adolygu'r portffolio academaidd i sicrhau perthnasedd parhaus rhaglenni; a gweithredu set o strategaethau cydlynol a gynlluniwyd i gefnogi gwella profiad dysgu'r myfyrwyr.

**Darpariaeth ddigidol** (dau ddarparwr) – canmolwyd datblygiad a defnydd effeithiol technoleg ddigidol mewn un darparwr, a chanmolwyd yr ail mewn darparwr arall yn ymwneud â'r defnydd helaeth o dechnoleg i gefnogi'r ddarpariaeth.

**Capasiti a gallu staff** (un darparwr) - roedd y ganmoliaeth yn ymwneud â: ehangu tîm staff AU y darparwr i gydnabod unigrywiaeth y ddarpariaeth AU ac i greu cymuned AU; ac annog holl staff AU i ddilyn datblygiad proffesiynol.

**Y Gymraeg** (dau ddarparwr) - canmolwyd dwyieithrwydd sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn ym mhob agwedd ar fywyd y brifysgol. Mewn darparwr arall, canmolwyd y gefnogaeth hygyrch sydd wedi'i gwreiddio i staff sy'n addysgu ac yn asesu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â staff a myfyrwyr sy'n dysgu Cymraeg sy'n annog ymgysylltiad a chyfranogiad gyda'r iaith.

**Lleoliad** (un darparwr) - canmolwyd y drefniadaeth a'r rheolaeth gyson a hynod effeithiol o weithgarwch lleoliadau ar draws y sefydliad.

## Cadarnhadau

Roedd 21 o gadarnhadau ar draws y 10 darparwr. Derbyniodd pob darparwr o leiaf un cadarnhad. Y nifer fwyaf o gadarnhadau oedd tri ar gyfer: Grŵp Llandrillo Menai; Coleg Castell-nedd Port Talbot yn masnachu fel Grŵp Colegau NPTC; Prifysgolion Abertawe a Bangor.

Mae cadarnhad yn gydnabyddiaeth o gamau gweithredu sy'n deillio o ddefnydd effeithiol o weithdrefnau ansawdd y darparwr ei hun sydd eisoes yn digwydd mewn darparwr i wella gwendid neu annigonolrwydd cydnabyddedig sy'n gysylltiedig â'r meysydd dyfarniad. Yn y cylch presennol o Adolygiadau Gwella Ansawdd, mae cadarnhadau wedi'u disodli gan *feysydd o ddatblygiad parhaus*. Y diffiniad o'r llawlyfr dull cyfredol yw:

*Nodir meysydd sydd o dan ddatblygiad parhaus i gydnabod camau gweithredu a gymerir, o ganlyniad i'r defnydd effeithiol a wneir gan y darparwr o'i weithdrefnau rheoli ansawdd ei hun, i sicrhau'r camau gweithredu sydd ar waith yn llawn i fynd i'r afael â'r gwendidau a ganfuwyd.*

Crynhoir y themâu cyffredin canlynol, fel a ganlyn (mae Atodiad 2 yn rhestru ac yn grwpio'r holl gadarnhadau adolygu yn eu cyfanrwydd).

**Prosesau sicrhau ansawdd** (tri darparwr) – datblygu Llawlyfr Ansawdd Academaidd; mapio prosesau i God Ansawdd Addysg Uwch y DU; ac adolygu'r broses fonitro flynyddol.

**Defnyddio data** (tri darparwr) – defnyddio data i: lywio prosesau gwneud penderfyniadau, gwerthuso ac adolygu; a chefnogi'r profiad myfyrwyr.

**Sefydliadau partner** (tri darparwr) – cymhariaeth profiad dysgu myfyrwyr ar draws lleoliadau aml-gampws a dulliau astudio; camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon a godwyd gan fyfyrwyr ar raglen fasnachfraint mewn un partner addysg bellach mewn perthynas ag ansawdd eu profiad dysgu; a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r diffygion yn y ddarpariaeth mewn un sefydliad partner penodol.

**Myfyrwyr doethuriaeth** (tri darparwr) – cryfhau'r gymuned ymchwil ôl-raddedig; creu profiad myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig nodedig a chyson; a gwella goruchwyliaeth sefydliad cyfan o brofiad myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.

**Myfyrwyr fel cyd-grewyr** (dau ddarparwr) – partneru a chynnwys myfyrwyr wrth wella'r profiad myfyrwyr.

**Asesu** (dau ddarparwr) – gweithredu Fframwaith Asesu; a gwella polisi ac arfer mewn asesu academaidd ac adborth.

**Arall** (pedwar darparwr) – amrywiaeth o faterion gan gynnwys: adolygu polisi arsylwi gan gymheiriaid y sefydliad; adroddiadau arholwyr allanol sy'n gwahaniaethu rhwng darpariaeth y Brifysgol ar y campws a'r hyn a gyflwynir ym mhob coleg partner; symleiddio'r broses derbyniadau addysg uwch; cadw manylebau rhaglenni'n gyfredol; a chynyddu cyfleoedd galwedigaethol cyfrwng Cymraeg addysg uwch ar draws y rhanbarth (yn ymwneud ag un sefydliad penodol).

## Argymhellion

Roedd 11 o argymhellion ar draws y 10 darparwr. Ni chafodd pum darparwr unrhyw argymhellion: Coleg Castell-nedd Port Talbot yn masnachu fel Grŵp Colegau NPTC; a Phrifysgolion Caerdydd; Bangor; Abertawe a De Cymru. O'r pum darparwr sy'n weddill, derbyniodd tri ohonynt dri argymhelliad yr un: Prifysgol Metropolitan Caerdydd; Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant; a Phrifysgol Aberystwyth.

Mae timau adolygu yn gwneud argymhellion lle maent yn cytuno y dylai darparwr ystyried newid arfer, polisi neu broses er mwyn: diogelu safonau academaidd; a sicrhau ansawdd, neu fod â'r potensial i wella a mireinio'r cyfleoedd dysgu y mae'n eu darparu i fyfyrwyr (gweler llawlyfr dull QER).

Crynhoir y themâu cyffredin canlynol, fel a ganlyn (mae Atodiad 3 yn rhestru ac yn grwpio holl argymhellion yr adolygiad yn eu cyfanrwydd).

**Myfyrwyr ôl-raddedig** (dau ddarparwr) – roedd y materion dan sylw yn ymwneud â sicrhau bod myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n ymgymryd â neu'n cefnogi addysgu yn cael eu hyfforddi; a chynnal gwerthusiad rheolaidd o brofiad y myfyriwr ymchwil.

**Sefydliadau partner** (dau ddarparwr) – sicrhau cynlluniau addysgu ar gau cyrsiau; cefnogi cynrychiolaeth myfyrwyr; a rheoli cwynion ac apeliadau myfyrwyr.

**Materion eraill** (tri darparwr) – amrywiaeth o faterion eraill gan gynnwys: canlyniadau cyflogadwyedd rhaglenni; gweithredu hyfforddiant priodol, ar gyfer staff academaidd sefydledig, ar brosesau ansawdd; goruchwylio'r system tiwtoriaid personol; cymeradwyo arholwyr allanol ar gyfer dyfarniadau gradd ymchwil; a chyhoeddi adborth asesu mewn modd amserol.

**Atodiad 1**

**Canmoliaeth darparwyr**

| **Canmoliaeth** | **Aber** | **Bangor** | **Met Caerdydd** | **Caerdydd** | **Grŵp Llandrillo** | **Castell-nedd Port Talbot** | **Abertawe** | **Y Drindod Dewi Sant** | **De Cymru** | **Glyndŵr Wrecsam** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Partneriaeth a llais myfyrwyr** | | | | | | | | | | |
| 1. Ffocws clir ar nodau strategol ar draws y Brifysgol, a ddatblygwyd ac a weithredir mewn partneriaeth â myfyrwyr, sy'n creu dull cydlynol o wella dysgu, addysgu ac asesu. | | | | | | | | | ☑ | |
| 2. Mae'r tîm adolygu yn canmol ymrwymiad y sefydliad i ymgysylltu â myfyrwyr a llais y myfyrwyr, gan alluogi myfyrwyr i gyfrannu at ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth. | | | | | | ☑ | | | | |
| 3. Agwedd strategol y Grŵp at y ddarpariaeth ar gyfer dysgu ar-lein a dysgu o bell sy'n sicrhau profiad dysgu cynhwysol i fyfyrwyr. | | | | | ☑ | | | | | |
| 4. Y cyfraniad cryf a wnaed gan y Deoniaid Cysylltiol Ymgysylltiad Myfyrwyr yn cryfhau ymgysylltiad myfyrwyr a phartneriaeth rhwng myfyrwyr a'r Brifysgol. | | | ☑ | | | | | | | |
| 5. Y ffocws strategol a roddir ar gyfathrebu a thrafod gyda'r myfyrwyr sy'n creu teimlad cryf o gymuned ac sy'n gyrru gwelliant ar lefel y sefydliad cyfan ym mhrofiad y myfyrwyr. | | | | | | | ☑ | | | |
| 6. Y ffocws cryf a roddir ar y bartneriaeth â'r myfyrwyr yn y Brifysgol sydd wedi ei ymwreiddio ar bob lefel yn y sefydliad, ac sy'n galluogi i'r myfyrwyr ymgysylltu'n feirniadol â phrosesau gwneud penderfyniadau'r Brifysgol. | | | | | | | ☑ | | | |
| 7. Y bartneriaeth estynedig gyda'r myfyrwyr sy'n gwerthfawrogi'r gwahanol ddiwylliannau ac sy'n treiddio i bob agwedd o fywyd y Brifysgol. | | ☑ | | | | | | | | |

| Canmoliaeth | Aber | Bangor | Met Caerdydd | Caerdydd | Grŵp Llandrillo | Castell-nedd Port Talbot | Abertawe | Y Drindod Dewi Sant | De Cymru | Glyndŵr Wrecsam |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ymateb i'r pandemig** | | | | | | | | | | |
| 8. Y ffordd ystyriol a gwybodus y mae'r Brifysgol wedi ymateb i'r pandemig, sydd wedi ei chyfathrebu'n effeithiol ac sydd wedi galluogi i'r Brifysgol ostwng yr effaith ar ei myfyrwyr a'i staff a darparu sylfaen gadarnhaol iddynt ar gyfer dysgu'n weithredol. | | | | | | | | | ☑ | |
| 9. Mae'r tîm adolygu'n canmol y nifer fawr o gamau a gymerwyd i sicrhau parhad y dysgu, yr addysgu, y cymorth myfyrwyr a'r cymorth lles yn ystod y pandemig. | | | | | | ☑ | | | | |
| 10. Yr amrywiaeth eang o ddulliau digidol o hyfforddi, addysgu a chefnogi, a ddatblygwyd yn ystod y pandemig, a'r defnydd effeithiol a wneir ohonynt, sy'n parhau i gyfoethogi profiad y staff a'r myfyrwyr. | | | | | | | | ☑ | | |
| 11. Dull arbennig o ragweithiol y Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth i wella lefel y gefnogaeth i fyfyrwyr ymhellach, yn enwedig yn ystod y pandemig. | | | ☑ | | | | | | | |
| 12. Ystwythder ac ymatebolrwydd y camau gweithredu a gymerwyd gan y Brifysgol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19 er mwyn sicrhau parhad y dysgu a'r addysgu a phrofiad y myfyrwyr. | | | | | | | ☑ | | | |
| 13. Y camau gweithredu a gymerwyd gan y Brifysgol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19 i sicrhau bod y prosesau sicrhau ansawdd a materion rheoliadol yn parhau'n gadarn. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno'r Polisi Rhwyd Ddiogelwch a gweithrediad y rheoliadau a pholisïau brys ym meysydd dysgu, addysgu ac asesu. | | | | | | | ☑ | | | |
| **Cymorth i fyfyrwyr** | | | | | | | | | | |
| 14. Mae'r tîm adolygu'n canmol ymrwymiad y sefydliad i ddarparu | | | | | | ☑ | | | | |

| Canmoliaeth | Aber | Bangor | Met Caerdydd | Caerdydd | Grŵp Llandrillo | Castell-nedd Port Talbot | Abertawe | Y Drindod Dewi Sant | De Cymru | Glyndŵr Wrecsam |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| cymorth wedi ei deilwra i'w fyfyrwyr i ateb eu hanghenion academaidd a bugeiliol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial. | | | | | | | | | | |
| 15. Ehangder a dyfnder y gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr sydd ar gael ar bob campws ac i bob myfyriwr, sy'n galluogi eu datblygiad academaidd, personol a phroffesiynol. | | | | | ☑ | | | | | |
| 16. Yr Hwb Myfyrwyr sy'n darparu pwynt cyswllt a gwybodaeth electronig i'r myfyrwyr sy'n hygyrch ac yn gynhwysfawr, ac mae hyn yn cefnogi eu profiad dysgu'n effeithiol. | | | | | | | | ☑ | | |
| 17. Y gwaith pwrpasol ac effeithiol a wneir i fonitro a chefnogi myfyrwyr unigol mewn ffordd wedi'i phersonoli er mwyn hwyluso eu datblygiad academaidd. | | | | | | | | | | ☑ |
| **Sefydliadau partner** | | | | | | | | | | |
| 18. Y partneriaethau sydd wedi eu rheoli'n dda gyda'r pum coleg addysg bellach yn y Gynghrair Strategol, sy'n ateb anghenion y myfyrwyr yn yr ardal leol a'r cyflogwyr yn y rhanbarth. | | | | | | | | | ☑ | |
| 19. Y gefnogaeth hygyrch a chynhwysfawr a ddarperir, yn arbennig gan y Swyddfa Partneriaethau Cydweithredol a'r Arweinwyr Timau Partneriaeth, i sefydliadau partner cydweithredol sy'n eu helpu'n effeithiol i ddeall a gweithredu gofynion PCyDDS. | | | | | | | | ☑ | | |

| **Canmoliaeth** | **Aber** | **Bangor** | **Met Caerdydd** | **Caerdydd** | **Grŵp Llandrillo** | **Castell-nedd Port Talbot** | **Abertawe** | **Y Drindod Dewi Sant** | **De Cymru** | **Glyndŵr Wrecsam** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 20. Y dull cydlynol ac effeithiol o wella cyfleoedd i'r myfyrwyr symud ymlaen o'i phartneriaid cydweithredol a rhyngddynt. | | | | | | | | ☑ | | |
| 21. Y trefniadau cadarn sydd wedi’u gwreiddio’n dda i gynnal trosolwg dros bartneriaethau addysg drawswladol gan sicrhau nad oes risg i safonau academaidd nac ansawdd profiad dysgu’r myfyrwyr. | | | ☑ | | | | | | | |
| 22. Y berthynas gefnogol a chydweithredol y mae'r Brifysgol yn ei datblygu gyda'i phartneriaid sy'n galluogi iddyn nhw gymryd rhan gyfartal yn y bartneriaeth. | ☑ | | | | | | | | | |
| **Defnyddio pwyntiau cyfeirio allanol** | | | | | | | | | | |
| 23. Y ffordd y mae'r Brifysgol wedi ymgysylltu'n eang ag arweiniad, arbenigedd a rhwydweithiau allanol, sydd wedi helpu'n gadarnhaol i hysbysu ei gwaith o reoli safonau academaidd a gwella profiad y myfyrwyr. | | | | | | | | | ☑ | |
| 24. Cynnwys cyflogwyr ac arbenigwyr pwnc allanol eraill wrth gynllunio a chyflwyno rhaglenni sy'n effeithiol o ran gwella profiad galwedigaethol a dilyniant i fyfyrwyr. | | | | | ☑ | | | | | |
| 25. Y ffordd y mae'r Brifysgol yn ymateb i'r anghenion cyflogadwyedd ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol drwy ddatblygu partneriaethau pwrpasol ac arloesol newydd. | ☑ | | | | | | | | | |

| **Canmoliaeth** | **Aber** | **Bangor** | **Met Caerdydd** | **Caerdydd** | **Grŵp Llandrillo** | **Castell-nedd Port Talbot** | **Abertawe** | **Y Drindod Dewi Sant** | **De Cymru** | **Glyndŵr Wrecsam** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 26. Y cyfleoedd a ddarperir gan Raglen Cyfleoedd Ymchwil Israddedig Caerdydd (CUROP) i'r myfyrwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil er mwyn cyfoethogi eu dysgu a gwella eu rhagolygon gyrfaol at y dyfodol. | | | | ☑ | | | | | | |
| **Defnyddio data** | | | | | | | | | | |
| 27. Argaeledd data cynhwysfawr, a'r defnydd cynhwysfawr a wneir o ddata yn rhan o'r prosesau ansawdd, sy'n hwyluso gwneud penderfyniadau deallus yn brydlon er mwyn gwella profiad y myfyrwyr. | | | | | | | | | ☑ | |
| 28. Y dangosfwrdd data sy'n darparu amrywiaeth eang o ddata cywir, defnyddiol a hygyrch i'r staff, ac sy'n galluogi i'r Brifysgol fonitro ei pherfformiad yn gynhwysfawr ac yn effeithiol mewn perthynas â safonau ei dyfarniadau ac ansawdd profiad dysgu ei myfyrwyr. | | | | | | | | ☑ | | |
| 29. Y ffordd y cesglir ac y defnyddir y data am berfformiad a chyfranogaeth y myfyrwyr yn systematig i hysbysu a gwella cymorth i fyfyrwyr a hybu eu cynnydd academaidd. | | ☑ | | | | | | | | |
| **Dulliau sefydliad cyfan** | | | | | | | | | | |
| 30. Effaith mentrau'r Gyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd yn sicrhau y caiff ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr ei reoli a'i wella mewn modd cyson. | | | ☑ | | | | | | | |
| 31. Y defnydd rhagweithiol a wneir gan y Brifysgol o brosesau a gweithdrefnau datblygedig i sicrhau rheolaeth strategol a datblygiad gweithrediadol effeithiol o'i phortffolio academaidd, ynghyd ag adolygiad effeithiol ohono, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol i'w rhaglenni. | | | | | | | ☑ | | | |
| 32. Y gwaith a wneir i lunio a lledaenu cyfres gynhwysfawr o | | | | | | | | | | ☑ |

| **Canmoliaeth** | **Aber** | **Bangor** | **Met Caerdydd** | **Caerdydd** | **Grŵp Llandrillo** | **Castell-nedd Port Talbot** | **Abertawe** | **Y Drindod Dewi Sant** | **De Cymru** | **Glyndŵr Wrecsam** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| strategaethau cydlynol er mwyn helpu i wella profiad dysgu'r myfyrwyr. | | | | | | | | | | |
| **Darpariaeth ddigidol** | | | | | | | | | | |
| 33. Mae'r tîm adolygu'n canmol y ffordd y mae technolegau digidol yn cael eu datblygu a'u defnyddio'n effeithiol ar draws Grŵp Colegau NPTC, o fewn amgylchedd cefnogol, sy'n hwyluso gwelliant parhaus yn y dysgu a'r addysgu. | | | | | | ☑ | | | | |
| 34. Y cyfleusterau addysgu a dysgu cynhwysfawr sydd ar gael i fyfyrwyr gan gynnwys y defnydd helaeth o dechnoleg i gynorthwyo addysgu. | | | | | ☑ | | | | | |
| **Capasiti a gallu staff** | | | | | | | | | | |
| 35. Mae'r tîm adolygu'n canmol y ffordd y mae'r sefydliad wedi cynyddu maint ei dîm staff addysg uwch i gydnabod natur arbennig y ddarpariaeth addysg uwch a datblygu cymuned addysg uwch er mwyn gwella profiad y myfyrwyr. | | | | | | ☑ | | | | |
| 36. Mae'r tîm adolygu'n canmol ymrwymiad Grŵp Colegau NPTC i annog ei holl staff addysg uwch i gyrchu datblygiad proffesiynol mewn perthynas â dysgu, addysgu a chymorth myfyrwyr ar lefel addysg uwch, er budd yr unigolyn a'r corff myfyrwyr. | | | | | | ☑ | | | | |
| **Y Gymraeg** | | | | | | | | | | |
| 37. Y dwyieithrwydd sydd wedi ymwreiddio'n ddwfn ym mhob agwedd o fywyd y Brifysgol ac sy'n effeithio'n bositif ar brofiad ei myfyrwyr. | | ☑ | | | | | | | | |
| 38. Y gefnogaeth sefydledig sydd ar gael yn hawdd i staff sy'n addysgu | ☑ | | | | | | | | | |

| Canmoliaeth | Aber | Bangor | Met Caerdydd | Caerdydd | Grŵp Llandrillo | Castell-nedd Port Talbot | Abertawe | Y Drindod Dewi Sant | De Cymru | Glyndŵr Wrecsam |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg ac i staff a myfyrwyr sy'n dysgu Cymraeg, ac mae hwn yn annog cyfranogaeth ac ymgysylltiad â'r iaith. | | | | | | | | | | |
| **Arall** | | | | | | | | | | |
| 39. Y gwaith trefnu a rheoli cyson ac effeithiol iawn ar weithgareddau lleoliad gwaith ar draws y sefydliad. | | | ☑ | | | | | | | |

**Atodiad 2**

**Cadarnhadau darparwyr**

| **Cadarnhadau** | **Aber** | **Bangor** | **Met Caerdydd** | **Caerdydd** | **Grŵp Llandrillo** | **Castell-nedd Port Talbot** | **Abertawe** | **Y Drindod Dewi Sant** | **De Cymru** | **Glyndŵr Wrecsam** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prosesau sicrhau ansawdd** | | | | | | | | | | |
| 1. Datblygiad y Llawlyfr Sicrhau Ansawdd er mwyn canoli'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd mewn ffordd hygyrch. | | | | | | ☑ | | | | |
| 2. Y camau a gymerir i fapio prosesau ansawdd yn erbyn Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU er mwyn sicrhau bod yr arferion yn cael eu hadolygu a'u monitro'n barhaus i wneud yn siŵr eu bod yn parhau i alinio â'r disgwyliadau ar gyfer y sector. | | | | | | ☑ | | | | |
| 3. Y camau a gymerir i weithredu proses fonitro flynyddol ddiwygiedig sy'n galluogi i'r dull o adolygu a gwella profiad y myfyrwyr fod yn fwy ymatebol. | | | | ☑ | | | | | | |
| **Defnyddio data** | | | | | | | | | | |
| 4. Mae'r tîm adolygu'n cadarnhau'r datblygiad sy'n digwydd yn y gwaith o gasglu a defnyddio data addysg uwch yn effeithiol i hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau a gwerthuso. | | | | | | ☑ | | | | |
| 5. Y cynnydd arwyddocaol yn y defnydd o ffynonellau data i gefnogi profiad y myfyrwyr. | | | ☑ | | | | | | | |
| 6. Y camau y mae'r Brifysgol yn eu cymryd i ymdrin â'r diffygion y mae'r Brifysgol wedi eu canfod yn argaeledd y data, a'r ffordd y defnyddir data, at ddibenion gwneud penderfyniadau, gwerthuso ac adolygu. | | | | | | | ☑ | | | |

| Cadarnhadau | Aber | Bangor | Met Caerdydd | Caerdydd | Grŵp Llandrillo | Castell-nedd Port Talbot | Abertawe | Y Drindod Dewi Sant | De Cymru | Glyndŵr Wrecsam |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sefydliadau partner** | | | | | | | | | | |
| 7. Y gwaith y mae'r Coleg Doethurol yn ei wneud i sicrhau bod profiad y myfyrwyr yn gymaradwy ar draws yr amrywiaeth o gampysau a dulliau astudio. | | | | | | | | ☑ | | |
| 8. Y camau gweithredu sy’n cael eu cymryd i ddelio â materion a godwyd gan fyfyrwyr ar raglen freiniol mewn un partner addysg bellach mewn perthynas ag ansawdd eu profiad dysgu. | | | ☑ | | | | | | | |
| 9. Y camau sy'n cael eu cymryd i ymdrin â'r diffygion yn y ddarpariaeth yn Sefydliad Datblygu Rheolaeth Singapôr yn Tashkent. | | ☑ | | | | | | | | |
| **Myfyrwyr doethuriaeth** | | | | | | | | | | |
| 10. Y camau sy’n cael eu cymryd i ddatblygu ac ehangu’r academi ddoethurol bresennol ymhellach er mwyn cryfhau’r gymuned ymchwil ôl-raddedig. | | | ☑ | | | | | | | |
| 11. Datblygiad yr Ysgol Ddoethurol i gefnogi profiad ymchwil ôl-radd arbennig a chyson ar draws yr ysgolion i gyd. | | ☑ | | | | | | | | |
| 12. Y rhaglen waith y mae'r Brifysgol yn ei dilyn i ddatblygu system ddigidol newydd a fydd yn sicrhau gwell goruchwyliaeth ar lefel sefydliad cyfan o brofiadau myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. | ☑ | | | | | | | | | |
| **Myfyrwyr fel cyd-grewyr** | | | | | | | | | | |
| 13. Y camau a gymerwyd i ymwneud ymhellach â’r garfan amrywiol o fyfyrwyr sy’n galluogi’r Grŵp i weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr ac i wella profiad dysgu’r myfyrwyr. | | | | | ☑ | | | | | |

| **Cadarnhadau** | **Aber** | **Bangor** | **Met Caerdydd** | **Caerdydd** | **Grŵp Llandrillo** | **Castell-nedd Port Talbot** | **Abertawe** | **Y Drindod Dewi Sant** | **De Cymru** | **Glyndŵr Wrecsam** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14. Y camau a gymerir i gydweithio â myfyrwyr a addysgir fel partneriaid wrth ddatblygu, rheoli a gwerthuso eu profiad fel myfyrwyr. | | | | | | | | | | ☑ |
| **Asesu** | | | | | | | | | | |
| 15. Gweithrediad y Fframwaith Asesu i sicrhau bod y dulliau asesu'n cael eu gweithredu'n gyson ar draws y Brifysgol. | | ☑ | | | | | | | | |
| 16. Y camau y mae'r Brifysgol yn eu cymryd i wella ei pholisïau a'i harferion ym meysydd adborth ac asesu academaidd i ymdrin â phroblemau a ganfuwyd ganddi mewn data o ymatebion ei myfyrwyr i arolygon mewnol ac allanol. | | | | | | | ☑ | | | |
| **Arall** | | | | | | | | | | |
| 17. Y camau sy'n cael eu cymryd i adolygu polisi'r sefydliad ar arsylwi gan gymheiriaid er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n llawn a bod arferion da a meysydd sydd angen eu datblygu'n cael eu casglu a'u lledaenu'n systematig. | | | | | | | ☑ | | | |
| 18. Y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod adroddiadau arholwyr allanol yn gwahaniaethu'n eglur rhwng darpariaeth ar gampws y Brifysgol a honno a ddarperir ar gampysau pob un o'i cholegau partner. | | | | | | | | | ☑ | |
| 19. Y camau gweithredu sy’n cael eu cymryd gyda’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynyddu cyfleoedd galwedigaethol mewn addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y rhanbarth. | | | | | ☑ | | | | | |
| 20. Y datblygiadau sy'n cael eu gwneud i sicrhau proses dderbyn addysg uwch llinol, symlach drwy rôl y Swyddog Derbyniadau a Gyrfaoedd Addysg Uwch. | | | | | ☑ | | | | | |

| Cadarnhadau | Aber | Bangor | Met Caerdydd | Caerdydd | Grŵp Llandrillo | Castell-nedd Port Talbot | Abertawe | Y Drindod Dewi Sant | De Cymru | Glyndŵr Wrecsam |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21. Y camau y mae'r Brifysgol yn eu cymryd i sicrhau y cedwir manylebau rhaglenni'n gyfoes. | ☑ | | | | | | | | | |

**Atodiad 3**

## Argymhellion darparwyr

| **Argymhellion** | **Aber** | **Bangor** | **Met Caerdydd** | **Caerdydd** | **Grŵp Llandrillo** | **Castell-nedd Port Talbot** | **Abertawe** | **Y Drindod Dewi Sant** | **De Cymru** | **Glyndŵr Wrecsam** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Myfyrwyr ôl-raddedig** | | | | | | | | | | |
| 1. Datblygu system gadarn sy'n sicrhau bod pob myfyriwr ymchwil ôl-raddedig sy'n gwneud neu'n cefnogi gwaith addysgu, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, yn derbyn hyfforddiant priodol. | | | | | | | | ☑ | | |
| 2. Bod y Brifysgol yn sicrhau bod yr holl fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n addysgu yn ymgymryd â hyfforddiant ffurfiol priodol cyn cymryd cyfrifoldeb am addysgu gan gynnwys hyfforddiant penodol ar gyfer darparu ar-lein lle bo hynny'n briodol. | | | ☑ | | | | | | | |
| 3. Sicrhau bod profiad y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn cael ei werthuso'n rheolaidd | | | | | | | | | | ☑ |
| **Sefydliadau partner** | | | | | | | | | | |
| 4. Cynnwys myfyrwyr sefydliadau partner cydweithredol yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau 'addysgu allan' pan fo cyrsiau'n cael eu cau. | | | | | | | | ☑ | | |
| 5. Bod trefniadau ar gyfer cefnogi cynrychiolaeth myfyrwyr mewn sefydliadau partner yn cael eu gweithredu yn gyson ac yn effeithiol. | | | ☑ | | | | | | | |
| 6. Bod y Brifysgol yn sicrhau bod ei holl bartneriaid yn deall ei gofynion ar gyfer delio â chwynion academaidd yn llwyr a bod y gofynion hyn yn cael eu cyfathrebu'n eglur ac yn gyson i'r holl fyfyrwyr sydd gyda phartneriaid. | | | ☑ | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arall** | | | | | | | | | | |
| 7. Datblygu dull strategol cydlynol o wella canlyniadau pob rhaglen o ran cyflogadwyedd mewn swyddi proffesiynol sydd angen lefel uchel o sgiliau. | | | | | | | | ☑ | | |
| 8. Ffurfioli a gweithredu hyfforddiant priodol, ar gyfer staff academaidd sefydledig, ym mhrosesau ansawdd y Grŵp i sicrhau eu bod yn cael eu cymhwyso mewn modd cyson. | | | | | ☑ | | | | | |
| 9. Sicrhau goruchwyliaeth effeithiol gan y Brifysgol ar y defnydd a wneir gan y staff a'r myfyrwyr o'r system tiwtoriaid personol a'u hymgysylltiad â'i gofynion. | ☑ | | | | | | | | | |
| 10. Gweithredu system i sicrhau goruchwyliaeth ar lefel y sefydliad ar y broses o gymeradwyo arholwyr allanol ar gyfer dyfarniadau gradd ymchwil. | ☑ | | | | | | | | | |
| 11. Sicrhau bod pob myfyriwr yn derbyn adborth ar asesiadau mewn da bryd yn unol â gofynion y Brifysgol. | ☑ | | | | | | | | | |
| 12. Dim | | ☑ | | ☑ | | ☑ | ☑ | | ☑ | |

Cyhoeddwyd – 11 Gorffennaf 2025

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2025
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)